# 8

**Ffion Mair Jones**

# GWALLTER MECHAIN AC IFOR CERI

> I am slowly on my way to Meivod. I began my way last Saturday morning, had rain all the day, but reached Stoketon church, 38 miles from London that day, wet as a drowned rat ...
>
> P.S. Glorious news from St Domingo. The blacks are soundly drubbing the white devils, nicknamed men, llwyddiant iddynt.[1]

Walter Davies ‘Gwallter Mechain’ (1761–1849) a John Jenkins ‘Ifor Ceri’ (1770–1829), dwy bersonoliaeth ganolog i fyd hynafiaethau Cymreig yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac i ddatblygiad adfywiad Cymreig a Chymraeg ei iaith eu cyfnod, yw testun y bennod hon. Fe’u cyflwynir yn anuniongyrchol ar adeg a ragflaenai eu cyfeillgarwch â dyfyniad o lythyr gan Edward Williams ‘Iolo Morganwg’, gŵr a chwaraeodd ran flaenllaw, os cynddeiriogol, yn eu gweithgaredd. Ar fore Mawrth, 1 Mehefin 1802, roedd Iolo yn Stratford-upon-Avon, wedi cerdded o Lundain ac ar ei ffordd i gartref Gwallter Mechain ym Meifod, Sir Drefaldwyn. Roedd digon i’w drafod gan y ddau yn sgil penodi Gwallter gan y Bwrdd Amaeth yn 1797 i lunio adroddiad o gyflwr amaethyddiaeth yn ne Cymru a’r ddealltwriaeth y daethai Iolo iddi wedi trafodaethau ag Owain Jones ‘Owain Myfyr’ ar yr ymweliad hwn â Llundain, y byddai’n derbyn tâl am ei gynorthwyo.[2] Y cyfarfod ym Meifod oedd y cyntaf yn haf 1802, wrth i Wallter gychwyn ar gyfres o deithiau drwy dde Cymru, â’r bwriad o gyfarfod Iolo yn ysbeidiol ar ei hynt, mewn ymgais i gydweithio er mwyn dwyn yr adroddiad i fwcwl. Yn gydamserol â’r teithiau hyn ar dir Cymru, roedd ail wrthrych yr ysgrif hon, John Jenkins (nad oedd eto wedi dechrau arddel ei enw barddol Ifor Ceri), yn teithio mewn moroedd dieithr, nid nepell o’r St Domingo a ddygir i gof yn ôl-nodyn llythyr Iolo, trefedigaeth Ffrengig yng ngorllewin ynys Hispaniola (Haiti, heddiw). O fwrdd llong *Theseus*, wedi ei hangori yn Port Royal, Jamaica, ysgrifennodd Jenkins lythyr at ei fam, gartref yng Ngheredigion, yn cyfeirio at y frwydr waedlyd rhwng brodorion du St Domingo a’r Ffrancwyr a geisiai fygu eu gwrthryfel. Mae profiad teithio Gwallter a Jenkins yn un ymhlith nifer o elfennau ar eu gweithgaredd a’u cyraeddiadau a drafodir yma wrth gymharu a chloriannu eu cyfraniadau fel Cymry nodedig. Profiadau sy’n deillio o gyfnod cyn iddynt ddod i adnabod ei gilydd a dechrau gohebu a chyfarfod

yn gyson, tua 1810, oedd y profiadau hyn o deithio, fel y nodwyd, a rhan o gyfnod ffurfiannol yn eu bywydau: cyfnod yn y ddau achos y mae'n talu ei archwilio a'i ddwyn i sylw drachefn, er ei fwyn ei hun ac er mwyn y goleuni y gall ei daflu ar yr ymegnïo dros Gymreictod a gynrychiolir gan eu gwaith diweddarach.

Yn ffermdy Cilbronnau, Llangoedmor, Ceredigion y ganed Jenkins, yr ieuengaf o'r ddau ac, er nad oes llawer yn hysbys ynghylch ei rieni na'i deulu, mae'n debyg iddo gael llwybr cymharol gyfforddus drwy ysgol y pentref ac ymlaen i Academi Caerfyrddin, sefydliad yn nwylo'r Presbyteriaid, ac oddi yno i Goleg Iesu, Rhydychen, lle y matricwleiddiodd yn 1789, cyn graddio o Goleg Merton yn yr un brifysgol yn 1793.[3] Yn ei ddilyn o gwta ddwy flynedd, er bron i ddeng mlynedd yn hŷn nag ef, ymaelododd Gwallter Mechain â Choleg Neuadd Alban yn 1791 cyn graddio o Goleg yr Holl Eneidiau yn 1795.[4] Er y gallai Gwallter hawlio perthynas drwy ei dad 'â theuluoedd urddasol Nant-yr-erw-haidd yn Edeirnion a Chyffiniaid Trebrys',[5] nodwyd 'Pleb.' (*Plebeian*) i ddynodi gwrêng yn erbyn enw ei dad ef—fel tad Jenkins—yng nghofnodion y brifysgol gan awgrymu mai pur gyffredin oedd eu cefndir ill dau. Tebyg oedd canlyniad eu haddysg yn un o ddwy brifysgol amlycaf Prydain Fawr: cymryd urddau eglwysig a dilyn gyrfa'n gwasanaethu fel rheithorion neu ficeriaid. Ond er i'r cam hwn sicrhau dyrchafiad cymdeithasol i'r ddau yn y pen draw, nid heb beth anhawster y gwrthdrowyd pob elfen o gyni yn eu hamgylchiadau. Dibynasai Gwallter ar ddysg ei fam, cymwynasgarwch person y plwyf, a chwmnïaeth beirdd lleol i feithrin ei ddiddordeb mewn llyfrau a'i archwaeth at gystadlu mewn eisteddfodau lleol fel bardd, a bu'n rhaid iddo weithio fel cowper cyn dod i sylw hoelion wyth cymdeithas Cymry Llundain, y Gwyneddigion, yn dilyn buddugoliaeth mewn eisteddfod o dan eu hadain hwy yn Y Bala ym mis Medi 1789. Wedi'r llwyddiant hwn enillodd nawdd y crwynwr ariannog Owain Myfyr, a addawodd ei gefnogaeth wrth iddo gychwyn ar addysg lawnach yn Rhydychen ac yntau bellach yn 28 oed. Daeth amgylchiadau anodd i fenu ar Jenkins, yntau, wedi gadael Rhydychen; bu'n rhaid iddo gymryd swydd fel curad tlawd i berthynas oriog ar Ynys Wyth, gwaith blinderus a diddiolch a gyfnewidiodd yn fuan am gyfnod mwy heriol byth fel caplan ar fwrdd llongau rhyfel yn ystod y gwrthdaro cythryblus rhwng Prydain a Ffrainc Napoleon, y swydd a'i dygodd i Port Royal, Jamaica, fel y gwelsom.

Nid oes amheuaeth na fanteisiodd y ddau ar yr hyn a gynigiai addysg yn Rhydychen iddynt. Er gwaethaf cychwyniadau anodd ei yrfa, daeth Jenkins yn y man yn rheithor Maenordeifi, Sir Benfro, cyn cael ei benodi'n ficer Ceri, Maldwyn, yn 1807. Dyma'r lleoliad yr ieuwyd ef wrtho drwy ei ddewis o enw barddol, Ifor Ceri, a'r fan y daethpwyd i'w mawrygu fel canolbwynt haelioni a chyfeillach groesawgar ymhlith beirdd a cherddorion o'i gydnabod, math o ddrych o lys Ifor Hael, cartref noddwr hynaws Dafydd ap Gwilym ym Masaleg yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. I Wallter Mechain, yn sgil y cyfnod o addysg yn Rhydychen daeth cyfle i weithio fel clerc yng Ngholeg yr Holl Eneidiau a churad yn amgueddfa'r Ashmolean, lle y daeth rhai o lawysgrifau ei gyd-wladwr adnabyddus, Edward Lhuyd, i'w sylw, gan gyfrannu, heb os, at ei ddiddordeb mewn hynafiaethau (er mai pitw oedd cyflog y swydd, ysywaeth).[6] Ochr yn ochr â manteision addysg ffurfiol Rhydychen, rhoddodd cychwyniadau heriol y ddau y dycnwch, y penderfyniad, a'r medrau a'u galluogodd i ddatblygu'n ffigyrau canolog i dwf un o fudiadau Cymreig mwyaf pellgyrhaeddol hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y cymdeithasau Cymroaidd a esblygodd o 1819 ymlaen. Mae gohebiaeth Jenkins â'i fam yn ystod cyfnod ei glerigaeth yn Whippingham ar Ynys Wyth a'i gyfnod fel caplan ar y môr yn dangos, ymhlyg mewn rhwystredigaeth a hiraeth am ei gartref, ŵr ifanc a ymffurfiai yn wasanaethwr, yn anogwr, ac yn gefn i eraill. O'r brodyr iau gartref yn Llangoedmor yr holai'n gyson am eu datblygiad ym myd addysg gan gadw llygad ar welliannau yn safon eu llawysgrifen a'u mynegiant drwy lythyr, hyd at y morwyr ifanc y cyfleai eu hanes i'w teuluoedd yn ei ohebiaeth ac yr ymdrechai i'w diddanu â'i berfformiadau o alawon eu gwlad ar ei soddgrwth, roedd cylchoedd o gysylltiadau a fanteisiai ar haelioni a doethineb ymarferol Jenkins. Pan ymsefydlodd yng Ngheri, troes y cymwysterau hyn at fudd ei blwyfolion gan eiriol ar eu rhan gerbron pennaeth esgobaeth Tyddewi, Thomas Burgess, a'i rhagflaenasai yn yr ardal yn dilyn ei benodi i'r swydd yn 1803. Ymgymerodd â'r gwaith o drefnu gwelliannau i eglwysi ei blwyf, yn beintio a gwyngalchu waliau, argymell gosod giatiau i'w mynwentydd, neu godi oriel newydd y tu mewn i'r adeiladau; ac aeth ati i wneud yn siŵr fod ategolion angenrheidiol megis offerengrysau, napcynau ar gyfer y Cymun, a llieiniau hers duon ar gael. At hyn, ymbrysurodd i ddwyn sylw ei esgob at gyni rhai o'r curadiaid, a stryffagliai, yn wael eu hiechyd, i wasanaethu eu gofalaethau a chynnal eu teuluoedd ar incwm

truenus. Mewn cyswllt deallusol, symbylwyd Jenkins gan ymgais Burgess i hyrwyddo dysg ymysg ei braidd a chywion offeiriaid drwy sefydlu Cymdeithas er mwyn Hybu Gwybodaeth Gristionogol ac Undeb Eglwysig yn ei esgobaeth, a throes ei sylw at gydgysylltu ag argraffwyr yn nhref Caerfyrddin er sicrhau deunyddiau darllen cyfredol i'w blwyfolion, yn amlwg yn eu plith eitemau a gefnogai lais yr Eglwys Sefydledig yn erbyn dwndwr cynyddol yr enwadau Ymneilltuol. Roedd gofal Jenkins dros eraill, ei ymwneud cynnar â materion cyhoeddi, a'i berthynas adeiladol â Burgess oll yn elfennau creiddiol yn ei ddatblygiad fel un o hoelion wyth y cymdeithasau Cymroaidd yn y 1820au.

Yr elfen amlycaf ar gyfnod ffurfiannol Gwallter oedd ei ymwneud â'r byd barddol ar foment pan drawsffurfiwyd yr arfer o gynnal cyfarfodydd cystadleuol bychain, lleol i hybu'r arfer o farddoni yn fudiad ehangach a gynhaliai eisteddfodau ar hyd gogledd Cymru o dan nawdd Cymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain.[7] Yn bur wahanol i Jenkins, â'i gymwynasgarwch diflino dros eraill yn ystod ei gyfnod ar y môr, mae drycsawr i'r cyfnod cyfatebol hwn ym mywyd Gwallter Mechain. Cadwyd mewn gohebiaethau rhyngddo ef a Thomas Jones, trefnwr eisteddfod Corwen (Mai 1789), ac Owain Myfyr dystiolaeth iddo geisio a chael manteision annheg, peth yr oedd cyfoedion yn gwbl ymwybodol ohono ac a nodwyd gan sylwebwyr yn yr oesoedd i ddod, hefyd.[8] Yn ogystal â derbyn rhagrybudd o destunau eisteddfod Corwen drwy ffafriaeth Thomas Jones, ceisiodd Gwallter ddylanwadu ar dderbyniad ei '[g]ywydd ystyriaeth ar oes dŷn' ar gyfer eisteddfod Y Bala (Medi 1789), trwy ofyn i Owain Myfyr sicrhau ei fod yn cael ei 'addurno' mewn arddull a efelychai acen unigryw trigolion Môn ac Arfon wrth ei ddarllen gerbron y Gwyneddigion.[9] Yn yr un llythyr ag y gwnaeth y cais rhyfedd hwn, pleidiasai Gwallter ei arwahanrwydd o fewn cyswllt gogleddol aelodaeth y Gwyneddigion: 'mae'n debygol gennif nad oes yr un o Gymdeithas y Gwyneddigion wedi eni yn swydd Drefaldwyn', meddai, gan fynd rhagddo'n rhyfygus i'w uniaethu ei hun â 'phrophwyd yn Nazareth'.[10] Ynghyd ag ymdrechion ensyniadol o'r fath i ennill ffafr, dadleuodd Geraint Phillips i addewid a brwdfrydedd Gwallter dros lenyddiaeth gyfareddu Owain Myfyr.[11] Gwnaed ef yn gymeriad canolog yn nhwf cymdeithasau Cymroaidd y ganrif ddilynol drwy'r cyfuniad hwn o'r powld a'r cynhyrchiol. Os oedd cyfle am wobr eisteddfodol, boed am gerdd wreiddiol neu gasgliad o benillion telyn, fe'i cymerai, waeth

beth fyddai'r gost yn foesol.[12] Yr un oedd ei gamwedd pan awgrymodd Owain Myfyr iddo lunio golygiad o *magnum opus* anghyhoeddedig Lewis Morris, 'Celtic Remains', gan dalu £10 ar ei ran am gopi o'r rhan gyntaf ohono: derbyniodd y llawysgrif, lluniodd gynigion (*Proposals*) yn amlinellu ei fwriadau ar gyfer ei gyhoeddi, a chasglodd enwau pum cant o danysgrifwyr gan bocedu chwe swllt y copi yn ernes, arian nas ad-dalwyd pan fethwyd â chyhoeddi'r gwaith.[13] Er i Wallter sylweddoli bod golygu testun o'r fath y tu hwnt i'w allu, asesiad damniol G.J. Williams oedd '[nad] oedd ganddo'r dewrder moesol i gydnabod hynny'.[14]

Ochr yn ochr â'r ymgiprys am lwyddiant eisteddfodol ac, fe ymddengys, fel petai mewn ymdrech i ysgubo mater anorffenedig y 'Celtic Remains' dan y carped, cafodd Gwallter Mechain yn 1797 gomisiwn i greu arolygon o ogledd a de Gymru i'r Bwrdd Amaeth. Sefydlasid y Bwrdd gan Syr John Sinclair yn 1793, gan arwain at greu cyfres o adroddiadau, *General Views*, yn amlinellu cyflwr amaethyddiaeth mewn siroedd ar hyd a lled Lloegr (hynny mewn adlewyrchiad o waith cyffelyb Sinclair, *Statistical Accounts of Scotland* a gyhoeddwyd yn y lle cyntaf yn 1791–9).[15] Gwnaeth Gwallter gynnydd buan yng ngogledd Cymru, gan gwblhau'r gwaith erbyn diwedd haf 1797. Yn achos yr arolwg o dde Cymru, cymhlethwyd y broses drwy feithrin cysylltiad â Iolo Morganwg, cystadleuydd arall am y comisiwn, a wrthodwyd oherwydd ei ddaliadau gwleidyddol. Cychwynnwyd arolygu'r diriogaeth yn haf 1802, fel y gwelwyd, ond gyrrwyd Gwallter bron i ben ei dennyn wrth geisio cael Iolo i gyflwyno ei ran ef o'r fargen yn ystod y blynyddoedd cyn ymddangosiad yr adroddiad ynghylch de Cymru yn 1815, cymar i'r adroddiad ar siroedd y gogledd a gyhoeddasid yn 1810. Er gwaethaf y rhwystredigaeth iddo ef, a'r perygl i'w enw da pe na chyflawnid yr arolwg, Owain Myfyr oedd y dioddefwr yn ariannol drachefn, gan iddo dalu swm o £40 i Iolo am ei gyfraniad, i'w ad-dalu gan Wallter wedi iddo gael ei gwblhau.[16]

Mae'r cofnodion llawysgrif a gadwyd gan Wallter Mechain ar ei deithiau amaethyddol, ynghyd â'r adroddiadau a gyhoeddwyd, yn ennyn edmygedd haneswyr ein dyddiau ni; cymaint mwy felly na'r doreth o gerddi a gynhwyswyd yn y casgliad tair-cyfrol *Gwaith y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain)* a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth o dan olygyddiaeth D. Silvan Evans. Lle y cwynodd R.T. Jenkins mai 'digon truenus' oedd barddoniaeth Gwallter, nodweddwyd ei waith ef ac eraill

o'i gyfnod ym marn E.G. Millward gan 'yr awydd i ddisbyddu'r testun, dweud cymaint ag sy'n bosibl amdano', a chyfeiriodd Geraint H. Jenkins yn ddi-flewyn-ar-dafod at ei 'linellau anobeithiol' i'r 'mochyn o ddyn', Thomas Picton, gan ergydio â'r un garreg ei fedr fel bardd a'i ddewis o eilun.[17] Ar y llaw arall, dadleuodd David Ceri Jones fod dyddiaduron taith Gwallter yng Ngheredigion yn dangos tystiolaeth o'i lafur diflino ym maes amaeth ac yn rhagori ar adroddiadau teithwyr a thwristiaid eraill yn yr wybodaeth a gynigiant ynghylch cymdeithas wledig Cymru'r oes; ac, wrth i feirniadaeth sy'n rhoi sylw i'r materol ennill tir o fewn astudiaethau o lenyddiaeth taith, mae'r rhagolygon am werthfawrogiad pellach o'i waith yn addawol.[18] Ymdriniodd Gwallter yn gynhwysfawr â'r arferion blaengar y sylwodd arnynt, gan gynnwys dulliau arloesol o groesi bridiau gwartheg, gwrteithio, dyfrio, plannu coed ac amryfal gnydau newydd, cyflwyno peiriannau megis yr injan ddyrnu, ffensio, a chloddio am fwynau. Mynegodd ei edmygedd o'r 'baradwys ddaearol' a luniwyd gan Thomas Johnes, Hafod, yn ei gartref yn nyffryn Afon Ystwyth, Ceredigion, atyniad, meddai, a oedd wedi denu sylw arlunwyr ac awduron megis George Cumberland, awdur *An Attempt to Describe Hafod, and the Neighbouring Scenes about the Bridge over the Funack,*



*Hafod*
*(Casgliad Tirluniau Llyfrgell Genedlaethol Cymru)*

*Commonly Called the Devil's Bridge, in the County of Cardigan* (1796); yr hynafiaethydd Benjamin Heath Malkin a gyflwynodd gyfrol i goffáu ei fab ifanc i Johnes; a'r arlunydd John "Warwick" Smith a ymwelodd â Hafod yn 1792.

Serch hynny, roedd cyfran nodedig o'r rhai a holwyd ganddo ar gyfer ei arolygon yn dal swyddi, fel yntau, yn yr Eglwys Sefydledig, ac mae pwyslais eu tystiolaeth hwy ar lefel fwy ymarferol a llai dyrchafol. Dyfeisiodd y Parchg Mr Ellis, rheithor Llanystumdwy, ddull o ddyfrio gwartheg yn y côr drwy ddirwyn dŵr o bwmp yno mewn pibellau; canfu'r Parchg Mr. Wynne Jones o Fôn a'r Parchg R.B. Clough o Ddyffryn Clwyd effeithiolrwydd calch ar gyfer gwrteithio; dilynwyd system ddyfrio arloesol y Parchg Mr. Wright o Cerney, Swydd Gaerloyw, gan ffermwyr ar borfeydd yn Y Waun ac ar fryniau Machynlleth; canfu'r Parchg Simon Lloyd o'r Bala ddull effeithiol o ffensio ar diroedd mawnoglyd; ac enillodd y Parchg Mr. Griffith, Caer Rhun, brydles ar chwarel o gwarts. Yn ne Cymru, roedd y rhai a ddarparodd wybodaeth i Gwallter yn cynnwys y Parchg J. Jenkins 'Ifor Ceri' yng Ngheredigion, y Parchg Thomas Beynon, archddiacon llengar Ceredigion, a'r clerigwr a'r hynafiaethydd W.J. Rees, Casgob, a'u presenoldeb yma fel petai'n rhagymadroddi'r gyfeillach a oedd i ddod ar dir pur wahanol ym mwrlwm prosiect hynafiaethol ac eisteddfodol y 1820au.

Mae Bedwyr Lewis Jones wedi amlinellu dechreuadau'r symudiad pwysig a ddygodd ail wynt i chwrligwgan ymdrechion gwŷr y ddeunawfed ganrif—o Forysiaid Môn a'u cyfeillion hyd at William Owen Pughe, Owain Myfyr a Iolo Morganwg—i osod seiliau cadarn i'w Cymreictod o fewn cyd-destun diwylliant pedair cenedl Ynysoedd Prydain. David Rowland 'Dewi Brefi' oedd piau'r syniad y gellid adfywio barddas drwy hyfforddi cywion-feirdd yn rheolau cerdd dafod; fe'i trawyd gan y posibilrwydd yn ystod cyfarfod o glerigwyr diwylliedig yng Ngheri ym mis Ionawr 1818, a gydag ychydig o hwb gan Ifor Ceri a chefnogaeth frwd gan yr Esgob Burgess, aed ati i drefnu cyfarfod yn nhafarn y Llew Gwyn, Caerfyrddin, ddiwedd mis Hydref yr un flwyddyn.[19] Y canlyniad oedd sefydlu Cymdeithas Gymroaidd Dyfed, y gyntaf ymhlith pedair cymdeithas daleithiol arfaethedig, oll o dan reolaeth pwyllgor canolog yn Llundain. Lluniwyd hefyd restr o argymhellion yn llwybr ar gyfer y dyfodol, argymhellion sy'n dangos mai calon y mudiad newydd, fel y'i gwelwyd y diwrnod hwnnw, oedd adfer a rhoi trefn ar lawysgrifau



*Iolo Morganwg*
*(Casgliad Portreadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru)*

Cymreig a'u gwneud yn hygyrch drwy eu cyhoeddi.[20] Teg dweud bod blas mewnbwn yr Esgob, un o sylfaenwyr y 'Royal Society of Literature' (1820) a'i chenhadaeth dros gyhoeddi hen lenyddiaeth, ynghyd â swyn yr hynafgwr Iolo Morganwg, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac a enwyd sawl gwaith yn yr argymhellion, yn amlwg ar y rhestr hon. Ond yn y cyfeiriad at lunio holiadur i'w anfon drwy Gymru er mwyn cywain alawon a phenillion, ymhlith pethau eraill, efallai y gallwn glywed llais y cerddor wrth fwrdd y dafarn y diwrnod hwnnw, sef Ifor Ceri.

Wrth i gynlluniau cyhoeddi uchelgeisiol y cymdeithasau Cymroaidd ddechrau esblygu, rhoddwyd ar waith yn ogystal raglen o eisteddfodau taleithiol, y gyntaf i'w chynnal yng Nghaerfyrddin y flwyddyn ganlynol, ac eraill i ddilyn yn Wrecsam (Medi 1820), Caernarfon (1821), ac Aberhonddu (1822). Buan iawn y taflwyd y bwriad gwreiddiol i lunio mudiad trwyadl Gymreig ei ysbryd a'i genhadaeth oddi ar ei echel gan ddwndwr cyfarfodydd eisteddfodol cynyddol Seisnig eu naws, fodd bynnag. I Ifor Ceri, yr arlwy cerddorol oedd y siom. Yn yr ail eisteddfod, yn Wrecsam, gadawyd trefniadau'r elfen gerddorol yn nwylo'r telynor a'r cyfansoddwr John Parry 'Bardd Alaw', a aeth ati fel corwynt i logi band pres milwrol Syr Watkin Williams Wynn ynghyd â chyflogi rhyw 'Mr. Randles of Wrexham ... a very fin[e] Harp player (Pedal)' a'i ferch dalentog, ac i lunio trefniannau cerddorol llawn amrywiaeth ar gyfer ei 'newly invented Flageolet, Double Flute, Clarinet, Voice &c &c'.[21] Prin oedd y lle i gerddoriaeth draddodiadol Gymreig yn y trobwll hwn o frwdfrydedd anghytsain lle y disodlwyd y delyn deires gan y delyn bedal a lle nad oedd i Edward Jones 'Bardd y Brenin', telynor Cymreig enwocaf ei ddydd, ond lle ar y cyrion ('Mr Jones will assist, but if Miss Randles will play the Harp we need not hear any other ...'). Cwbl wahanol oedd y prosiectau lluosog er diogelu a defnyddio alawon Cymreig a roesai

Ifor Ceri ar waith o tua 1812 ymlaen ac a ddadansoddwyd yn fanwl gan Daniel Huws mewn ysgrifau yn *Canu Gwerin* yn 1985 ac 1986. Arddelodd Jenkins y safonau cerddoregol uchaf wrth gasglu'r alawon a gynhwyswyd yn ei gasgliad cynharaf, 'Melus-geingciau Deheubarth Cymru' (1812–20), gan eu nodi o berfformiadau lleisiol byw yn hytrach na rhai offerynnol llai dilys. Yn ddiweddarach, cychwynnodd ar gasgliad pellach o 'Hen Donau, Marwnadau, Carolau &c Cymru' a'i enwi 'Melus-seiniau Cymru' (1817–25). Yr ysgogiad y tro hwn oedd darllen *Blodeu-gerdd Cymry* (1759, 1779) Dafydd Jones, Trefriw, ynghyd â'i ymwybyddiaeth ei hun o dwf diarbed Methodistiaeth a'i thrac sain o emynau, 'in my opinion of very inferior quality'.[22] Er bod y rhan fwyaf o'r alawon yn 'Melus-seiniau' yn cynnwys geiriau o ffynonellau print (fel y gellid disgwyl, o ystyried ei symbyliad), roedd rhai hefyd yn nodi cysylltiad ag ardal benodol ynghyd â geiriau digydnabyddiaeth—arwydd o darddiad mewn cyd-destun byw. Trydydd cam yng ngweithgarwch Ifor Ceri fel casglwr oedd 'Per-seiniau Cymru' (1824–5), lle y daeth geiriau argraffedig yn ganolog ac y ffurfiolwyd agweddau eraill ar y deunydd. Awgrymodd Daniel Huws y gallasai fod yn fwriad gan Ifor Ceri gyhoeddi'r gwaith hwn fel casgliad ond iddo fethu â chwblhau'r gwaith a phenderfynu, ysywaeth, ei drosglwyddo i ofal seren ffurfafen gerddorol yr eisteddfodau taleithiol, John Parry, a gyhoeddodd dros gant ohonynt




*'Ffarwel Prydain' yng nghasgliad Ifor Ceri 'Melus-seiniau Cymru'*
*(Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)*

ond gan hepgor unrhyw eiriau na manylion ynghylch eu tarddiad.[23] Dyna frad hollgynhwysol, felly, o ddelfryd un o brif sylfaenwyr y mudiad taleithiol dros gerddoriaeth ei wlad, a byd y casglwr alawon a'r llwyfan cyhoeddus eisteddfodol fel ei gilydd wedi eu goresgyn gan ŵr pur wahanol ei gymhellion iddo ef.

Fe gaed mesur o lwyddiant ym maes cyhoeddi, er nad digymysg ydoedd. Nid yw'n syndod yng nghyd-destun y bennod hon weld anawsterau'n codi yn sgil y penderfyniad i gynnwys Iolo Morganwg yn y ffrwd hon ar waith y mudiad; bu'r ymdrech i gael fersiwn barod o'r llyfr gramadeg a honasai a oedd yn ei ddwylo, 'Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain', yn boendod i Ifor Ceri am flynyddoedd ac erbyn ei gyhoeddi, flwyddyn wedi marwolaeth Iolo, roedd yr amheuon ynghylch ei ddilysrwydd yn drwch.[24] Bu llwyddiannau eraill, yn nodedig yn eu plith gan eu bod yn ateb ysbryd ac amcanion y cyfarfod cyntaf hwnnw yn y Llew Gwyn yng Nghaerfyrddin, gellir enwi catalogau Angharad Llwyd ac Aneurin Owen o lawysgrifau ym meddiant perchenogion ystadau yng ngogledd Cymru a'r Gororau a luniwyd ar gyfer cystadleuaeth yn eisteddfod Y Trallwng, 1824.[25] Er bod cnùl y mudiad wedi ei ganu i raddau gan lythyr cyhuddgar Evan Evans 'Ieuan Glan Geirionydd' i'r *Gwladgarwr* yn 1834, hynny wedi marwolaeth Ifor Ceri, lle y gresynwyd nad argraffwyd 'gwaith ein hen feirdd' ac na fu 'i'n holl hen lyfrgelloedd gael eu holrhain a'u chwilio', daeth haul ar fryn pan ymddangosodd golygiad Gwallter Mechain a John Jones 'Ioan Tegid', *Gwaith Lewis Glyn Cothi*, bedair blynedd yn ddiweddarach, gwaith a ystyrid yn barhad o'r *Myvyrian Archaiology of Wales*.[26]

Fe gloir y bennod hon ag enghraifft sy'n dod â'i dau wrthrych ynghyd drwy gerdd a chân ac, at hynny, mewn cyswllt sy'n cyfuno eu diddordebau diwylliannol a'u dyletswyddau bugeiliol, a hynny o dan lygad yr Esgob hollbresennol Burgess. Pan ysbeiliwyd llong yn dilyn llongddrylliad ar arfordiroedd Ceredigion a Sir Benfro ym mis Rhagfyr 1816, taranodd Burgess yn erbyn yr arfer creulon ac anghristnogol hwn mewn rhifyn o'r *Cambrian*.[27] Ymateb Ifor Ceri i anfadwaith dryllio arfordirol oedd gofyn i'w gyfaill, Gwallter, ganu cerdd ar fesur 'Diniweidrwydd' yn mynegi ei ofid ynglŷn ag ymddygiad o'r fath. Fe'i gosododd yntau hi ar fersiwn a gasglasai o'r dôn 'Ffarwel Prydain', a'i chynnwys mewn dau o'i gasgliadau, 'Melus-seiniau Cymru' a'r casgliad mwyaf diweddar, 'Per-seiniau Cymru'. Boddhaus yng nghyswllt y gyfrol hon yw gweld

doniau Ifor Ceri a Gwallter yn cael eu harfer yn ymarferol er lles, a cherddoriaeth draddodiadol, waeth beth am gymlethdodau cerddoregol, arferion eisteddfodol, neu ragoriaeth farddonol, yn ateb diben cyfoes ac yn dod yn fyw er lles trigolion cyffredin, Cymraeg-eu-hiaith eu hardaloedd.

**DARLLEN PELLACH**

*Gwaith y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain)*, gol. D. Silvan Evans, 3 cyfrol (Caerfyrddin, 1868).

Daniel Huws, 'Melus-seiniau Cymru', *Canu Gwerin*, 8 (1985), 32–51; 'Melus-seiniau Cymru: Atodiadau', *Canu Gwerin*, 9 (1986), 47–57.

Bedwyr Lewis Jones, '*Yr Hen Bersoniaid Llengar*' (n.p.: Gwasg yr Eglwys yng Nghymru, [1963]).

David Ceri Jones, 'The Board of Agriculture, Walter Davies ('Gwallter Mechain') and Cardiganshire, c.1794–1815', *Ceredigion*, 14 (2001–4), 79–100.

Ffion Mair Jones, ' "To know him is to esteem him": John Jenkins, Ifor Ceri 1770–1829', *Casgliadau Maldwyn*, 99 (2011), 53–82.

Geraint Phillips, *Dyn Heb ei Gyffelyb yn y Byd: Owain Jones a'i gysylltiadau llenyddol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010).

G.J. Williams, 'Llythyrau ynglŷn ag Eisteddfodau'r Gwyneddigion', *Llên Cymru*, 1 (1950–1), 29–47, 113–25.

Stephen J. Williams, *Ifor Ceri – Noddwr Cerdd (1770–1829)* (Abertawe: Coleg y Brifysgol Abertawe, 1954).

---

1. Iolo Morganwg at Gwallter Mechain, 1 Mehefin 1802, yn *The Correspondence of Iolo Morganwg*, ed. Geraint H. Jenkins, Ffion Mair Jones and David Ceri Jones, 3 volumes (Cardiff: University of Wales Press, 2007), II, tt. 416–17.
2. David Ceri Jones, 'The Board of Agriculture, Walter Davies ('Gwallter Mechain') and Cardiganshire, c.1794–1815', *Ceredigion*, 14 (2001–4), 79–100, yn enwedig t. 83; Geraint Phillips, *Dyn Heb ei Gyffelyb yn y Byd: Owain Jones a'i gysylltiadau llenyddol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010), t. 205.
3. Joseph Foster, *Alumni Oxoniensis: The Members of the University of Oxford, 1715–1886* (Oxford, 1891), II, t. 748.
4. Ibid., t. 351.
5. *Y Bywgraffiadur Cymreig* d.e. Davies, Walter ('Gwallter Mechain'; 1761–1849).
6. Phillips, *Dyn Heb ei Gyffelyb yn y Byd*, t. 133.
7. Bedwyr Lewis Jones, '*Yr Hen Bersoniaid Llengar*' (n.p.: Gwasg yr Eglwys yng Nghymru, [1963]), t. 15.
8. G.J. Williams, 'Llythyrau ynglŷn ag Eisteddfodau'r Gwyneddigion', *Llên Cymru*, 1 (1950–1), 29–47, yn enwedig t. 44 n. 12.
9. Ibid., 34, 46.
10. Ibid., 46.
11. Phillips, *Dyn Heb ei Gyffelyb yn y Byd*, t. 119.

12 Williams, 'Llythyrau ynglŷn ag Eisteddfodau'r Gwyneddigion', 38 n. 6.

13 Phillips, *Dyn Heb ei Gyffelyb yn y Byd*, tt. 134–7.

14 G.J. Williams, 'Llythyrau at Ddafydd Jones o Drefriw', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Atodiad, Cyfres III, Rhif 2 (1943), 31; dyfynnir yn Phillips, *Dyn Heb ei Gyffelyb yn y Byd*, t. 136.

15 *The Oxford Dictionary of National Biography* d.e. Sinclair, John, first baronet (1754–1835).

16 Phillips, *Dyn Heb ei Gyffelyb yn y Byd*, tt. 205, 213.

17 Jones, '*Yr Hen Bersoniaid Llengar*', t. 15; E.G. Millward, *Yr Arwrgerdd Gymraeg: Ei thwf a'i thranc* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), t. 82; Geraint H. Jenkins, *Y Digymar Iolo Morganwg* (Talybont: Y Lolfa, 2018), tt. 183–4.

18 Jones, 'The Board of Agriculture, Walter Davies ('Gwallter Mechain') and Cardiganshire, c.1794–1815', 95–6; Mary-Ann Constantine, *Curious Travellers: Writing the Welsh Tour 1760–1820* (i ymddangos; Oxford: Oxford University Press, 2024), 'Introduction'.

19 Jones, '*Yr Hen Bersoniaid Llengar*', tt. 18–19.

20 Ibid., t. 20.

21 John Parry at John Jenkins, 4 Mai 1820; dyfynnir yn Ffion Mair Jones, ' "To know him is to esteem him": John Jenkins, Ifor Ceri 1770–1829', *Casgliadau Maldwyn*, 99 (2011), 53–82, yn enwedig t. 79.

22 John Jenkins at John Parry, 11 Chwefror 1826; dyfynnir yn Daniel Huws 'Melus-seiniau Cymru: Atodiadau', *Canu Gwerin*, 9 (1986), 47–57, yn enwedig tt. 47–8.

23 Huws, 'Melus-seiniau Cymru', *Canu Gwerin*, 8 (1985), 32–51, yn enwedig tt. 40, 42–3.

24 Jones, ' "To know him is to esteem him" ', 66–7.

25 Angharad Llwyd, 'Catalogue of Welsh Manuscripts, etc. in North Wales', *Transactions of the Cymmrodorion, or Metropolitan Cambrian Institution*, II (1828), 36–58; Aneurin Owen, 'Catalogue of Welsh Manuscripts, etc. in North Wales. No II.', ibid., 400–18.

26 Jones, '*Yr Hen Bersoniaid Llengar*', t. 31; E.D. Jones, *Gwaith Lewis Glyn Cothi 1837–39: Darlith goffa G. J. Williams a draddodwyd yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, Mawrth 12, 1971* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1973); dyfynnir yn Phillips, *Dyn Heb ei Gyffelyb yn y Byd*, t. 249.

27 *The Cambrian*, 28 Rhagfyr 1816.

28 Llawysgrif LlGC 1940A i (Melus-seiniau Cymru), 57$^{r}$; llawysgrif LlGC 1940A ii (Per-seiniau Cymru), 6$^{v}$–8$^{v}$. Nodir 'deisyfiad Ioan Ceri' am y gerdd yn ibid., 8$^{v}$.